## Bwrdd Diogelu Gwent
## Adroddiad Cryno Adolygu Ymarfer Plant
## Cyf: SEWSCB 4/2022

### Disgrifiad cryno o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

Comisiynwyd adolygiad ymarfer plant estynedig gan Fwrdd Diogelu Gwent ar argymhelliad y Grŵp Adolygu Achosion a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2022. Roedd hyn yn unol â Chanllawiau 'Cydweithredu i Ddiogelu Pobl' ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaethol, y mae eu meini prawf wedi'u diwallu yn Adran 6. Mae Cylch Gorchwyl yr adolygiad yn Atodiad 1. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn yn dilyn marwolaeth plentyn gwrywaidd 4 oed ym mis Rhagfyr 2021, a elwir yn Stanley yn yr adroddiad hwn ar gais y teulu.

Ar adeg ei farwolaeth, roedd Stanley yn byw gyda'i fam a'i frawd iau 3-mis oed yng nghartref y teulu. Roedd ei rhieni wedi gwahanu, ac roedd yn treulio un nos pob penwythnos gyda'i dad a'i fam-gu ar ochr ei dad. Roedd Stanley yng nghartref ei dad pan aeth yn sâl, a phenderfynodd ei dad a'i fam-gu ar ochr ei dad i ddychwelyd y plentyn i ofal ei fam. Cludwyd Stanley i'w gartref mewn car, lle roedd ei fam yn sefyll yn y drws yn aros amdano. Ni aethant â Stanley i'r ysbyty gan y credant nad oedd gan y tad gyfrifoldeb rhiant drosto am nad oedd ei enw ar y dystysgrif eni, ac efallai na fyddai'r plentyn yn cael ei weld dan y fath amgylchiadau. Roedd Stanley yn anhwylus iawn ac yn anymatebol pan ddychwelodd i'w gartref. Galwodd ei fam am ambiwlans ac aethpwyd â Stanley i'r ysbyty. Yn drist, bu farw yno. Nid oes esboniad am achos ei farwolaeth, ond nodwyd bod ei goluddion wedi'u cywasgu.

**Cefndir**

Cafodd Stanley ei eni yn 2016 ac roedd yn byw gyda'i fam a'i frawd bach. Roedd y rhieni wedi cael plentyn arall yn 2018 a fu farw yn 6 mis oed. Deffrodd y tad yng nghanol y nos i fwydo'r baban a'i rhoi mewn cadair fownsio cyn mynd nôl i gysgu. Deffrodd wedyn am 10.30am a gwirio'r baban oedd yn y gadair fownsio o hyd, ond ar ei ochr a'i wyneb i lawr. Ceisiwyd perfformio adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) ond roedd y plentyn wedi marw. Cafodd y tad ei gyfweld gan yr heddlu ar sail wirfoddol am y drosedd honedig o esgeulustod. Roedd canlyniadau'r post-mortem yn amhendant, a phenderfynodd yr heddlu i beidio gweithredu ymhellach.

Roedd y ddau riant yn yfed yn drwm wedi hynny, a chafodd y tad rhywfaint o anawsterau iechyd meddwl. Yn hwyrach, torrodd y berthynas i lawr.

Ailddechreuodd y tad berthynas gyda menyw a oedd yn fam i'w ferch (sydd bellach yn 20 oed) a dechreuodd mam Stanley berthynas gyda Throseddwr Rhyw

Cofrestredig. Rhoddodd genedigaeth i'w blentyn yn 2021, tri mis cyn marwolaeth Stanley.

Roedd y teulu yn amlwg i'r gwasanaethau plant ac roedd Stanley a'i frawd bach ar y gofrestr amddiffyn plant ar adeg marwolaeth Stanley. Y prif bryder oedd perthynas y fam â Throseddwr Rhyw Cofrestredig, ond roedd ffactorau eraill yn cyfrannu at y sefyllfa gan gynnwys cam-drin domestig rhwng tad Stanley a'i dad-cu ar ochr ei fam ar adeg marwolaeth chwaer Stanley yn 2018. Cafwyd pryderon hefyd ynghylch honiadau bod tad Stanley wedi cam-drin ei nith yn rhywiol (rhoddodd wybod am yr honiadau ei hun cyn awgrymu ei fod wedi breuddwydio'r cyfan; cynhaliwyd archwiliad gan yr heddlu ond ni wnaethpwyd unrhyw ddatgeliadau) yn ogystal ag iechyd meddwl y ddau riant.

Yn ystod y misoedd cyn marwolaeth Stanley, dywedodd ei dad wrth ei deulu a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol ei fod yn clywed lleisiau ac yn cael meddyliau hunanladdol. Dywedwyd hefyd ei fod yn cario cyllell yn ei gar a chafodd driniaeth iechyd meddwl gan aros fel claf mewnol mewn ysbyty seiciatrig am gyfnod byr. Wedi'r arhosiad byr ac o ganlyniad i'r cyfnod seicotig hwn, cafodd gefnogaeth helaeth gan y tîm argyfwng a'r tîm ymyrraeth gynnar.

Ar 09.12.2020, derbyniodd y gwasanaethau cymdeithasol atgyfeiriad gan yr heddlu oherwydd cyswllt y fam â Throseddwr Rhyw Cofrestredig. Cynhaliwyd asesiad plentyn a ddaeth i ben saith wythnos yn ddiweddarach. Y canlyniad oedd llunio cytundeb ysgrifenedig i'w lofnodi gan y fam a oedd yn datgan na fyddai'n caniatáu i Stanley gael cyswllt gyda'i phartner heb oruchwyliaeth.

Ar 01.04.2021 cyflwynodd ymarferydd prawf partner y fam ddyletswydd i adrodd oherwydd ei bryderon bod y partner yn parhau i beri risg o niwed difrifol ac nid oedd yn cydymffurfio â'i orchymyn prawf, ac efallai bod ei bartner (mam Stanley) yn feichiog. Canlyniad yr atgyfeiriad oedd gwiriadau ochrol gyda'r adran addysg a'r adran brawf, a chysylltu â'r fam dros y ffôn i ail-ategu telerau'r cytundeb ysgrifenedig a oedd eisoes ar waith. Cafodd yr achos ei gau i'r gwasanaethau plant.

Ar 27.04.2021 cyflwynodd bydwraig y fam atgyfeiriad yn cadarnhau bod mam Stanley yn feichiog. Canlyniad yr atgyfeiriad oedd cynnal asesiad cyn i'r fam rhoi genedigaeth i'r baban.

Ar 06.05.2021 cyflwynwyd Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd i Heddlu Gwent ar ôl arestio tad Stanley am drosedd rhywiol honedig yn erbyn plentyn benywaidd (nith y fam). Cynhaliwyd cyfarfod strategol a dechreuwyd asesiad adran 47.

Ar 28.07.2021 cynhaliwyd Cynhadledd Diogelu Plentyn cychwynnol. Cytunwyd yn unfryd y dylid rhoi enw Stanley ar y gofrestr diogelu plant dan y categori cam-drin emosiynol, ac y dylid rhoi enw'r baban heb ei eni ar y gofrestr diogelu plant dan yr un categori ar ôl iddo gael ei eni.

Yn ystod ymweliad statudol gan y gweithiwr cymdeithasol a'r gweithiwr cymorth i deuluoedd ar 12.08.21, gwelwyd bod perthynas da rhwng Stanley a'i fam. Soniodd mam Stanley am ba mor wael roedd ei rhwymedd yn gallu bod, a bod meddyginiaeth

wedi'i rhagnodi iddo. Anogwyd y fam i ofyn am fwy o gyngor ac arweiniad gan y meddyg teulu.

Ar 01.09.2021 cynhaliodd yr awdurdod lleol gyfarfod cyfreithiol. Canlyniad y cyfarfod hwn oedd galw Cyfarfod Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus gan fod y fam wedi dweud yr hoffai i'w pherthynas barhau. Roedd hi fod i roi genedigaeth i'w baban ym mis Hydref 2021 ac roedd ei phartner i fod i gael ei rhyddhau o'r ddalfa ym mis Tachwedd 2021.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus gyda'r fam ar 17.09.21. Cytunodd mam Stanley i gytundeb Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yr awdurdod lleol a oedd yn datgan na fyddai unrhyw gysylltiad rhwng Stanley a'r baban heb ei eni â'i phartner ar ôl iddo gael ei rhyddhau o'r carchar heblaw lle cafodd ei gymeradwyo gan yr awdurdod lleol ymlaen llaw.

Ar 19.12.2021, derbyniodd yr heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans alwad ffôn yn dweud bod bachgen 4 oed yn cael ataliad y galon yng nghartref ei fam. Pan gyrhaeddodd yr heddlu, roedd y parafeddygon eisoes yn bresennol ac yn ymyrryd yn feddygol i geisio achub bywyd Stanley. Cafodd Stanley ei gludo mewn ambiwlans i'r ysbyty, lle bu farw.

Nid oedd unrhyw bryderon bod Stanley yn anhwylus yn y dyddiadau cyn ei farwolaeth, heblaw am yr hanes o rwymedd yr oedd yn derbyn meddyginiaeth ar ei gyfer (Movicol).

**Ymgysylltu â'r teulu at ddibenion yr adolygiad**

Cysylltwyd â'r teulu fel rhan o'r adolygiad hwn. Mae'r ddau adolygwr wedi cwrdd â'r fam a'r tad-cu ar ochr y fam yn ystod ymweliad â chartref y teulu, ac wedi cwrdd â thad Stanley ar wahân.

**Y cyfnod amser a adolygwyd**

Cyfnod amser yr adolygiad yw 19.12.2020 - 19.12.2021

## Dysgu am ymarfer a gweithdrefnau

Hoffai'r adolygwyr ddiolch i aelodau'r panel a'r ymarferwyr a fynychodd y digwyddiad dysgu am eu cyfraniad i'r adolygiad. Hoffem ddiolch yn ogystal i aelodau'r teulu am y wybodaeth a ddarparwyd ganddynt.

**Themâu a Phwyntiau Dysgu**

Nodwyd tair thema drosfwaol sydd wedi llywio pwyntiau dysgu'r adolygiad hwn:

- Ansawdd yr asesiadau diogelu
- Cyfleoedd a fethwyd i gyflwyno atgyfeiriadau diogelu.

- Anwybyddu pryderon ynghylch Cam-drin Domestig a chyfleoedd a fethwyd i atgyfeirio'r achos i wasanaethau'r Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA).

Fel y nodwyd uchod, cyfnod amser yr achos oedd mis Rhagfyr 2020 i fis Rhagfyr 2021, yn ystod y pandemig Covid 19. Pan ddechreuodd y pandemig Covid 19 ar ddechrau mis Mawrth 2020, roedd angen i sefydliadau adolygu eu trefniadau gweithio yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chyngor y llywodraeth ac yn parhau i gynnig gwasanaethau allweddol.

Ni fu unrhyw newid i gyfrifoldebau diogelu'r asiantaethau drwy gydol y pandemig. Disgwyliwyd i asiantaethau diogelu statudol ddatblygu prosesau i sicrhau nad oedd y gwaith o gyflawni gwasanaethau'n cael ei beryglu oherwydd y dulliau newydd o weithio.

Fodd bynnag, cydnabyddir nad oedd parhad busnes diogelu'r holl asiantaethau statudol ac anstatudol yn ddi-dor. Effeithiwyd ar niferoedd staff oherwydd salwch a mesurau gwarchod, ac roedd arferion a gweithdrefnau asiantaethau'n destun newidiadau cyson. Dywedodd aelodau staff yn y digwyddiad dysgu bod hyn wedi effeithio ar y ffordd yr oeddent yn asesu risg. Roedd y Gwasanaethau Plant yn rhoi graddfa 'Coch, Oren neu Wyrdd' (RAG) i achosion ar sail asesu risg a chynnal llawer o'r cyswllt â theuluoedd dros y ffôn.

**Thema 1: Ansawdd yr asesiadau diogelu**

Yn ystod y cyfnod dan sylw, cyflwynwyd pedwar atgyfeiriad i'r gwasanaethau plant: dau gan yr heddlu, un gan fydwraig ac un gan y gwasanaeth prawf. Fodd bynnag, dim ond un ohonynt aeth ymlaen at y cam trafod strategaeth ac ymholiadau amddiffyn plant Adran 47 er gwaethaf y pryderon sylweddol o ran diogelu. Mae pryderon hefyd nad oedd yr asesiadau diogelu'n rhoi digon o sylw i ba mor fregus oedd mam Stanley. Ni roddwyd ystyriaeth lawn i'r ffactorau megis ei bod hi wedi cael strôc wrth roi genedigaeth, bod ganddi broblemau iechyd meddwl ac roedd wedi colli plentyn.

Nid yw nodiadau achos y gwasanaethau plant yn nodi'n glir sut y cafodd y penderfyniadau eu gwneud mewn perthynas â dod â'r achos i ben. Hefyd, ymddengys bod diffyg dealltwriaeth o brofiad byw beunyddiol Stanley ac nid yw wrth galon yr asesiadau. Dim ond pan mae ei fam yn beichiogi y gwelir yr angen i rannu gwybodaeth ac ystyried y pryderon diogelu. Penderfynwyd ar ganlyniadau atgyfeiriadau heb gynnal trafodaethau/cyfarfodydd amlasiantaethol, er bod yr achos yn cyrraedd y trothwy ar gyfer cynnal cyfarfodydd strategaeth.

Teimlwyd nad oedd yr asesiadau wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r ffactorau risg ehangach yn gysylltiedig â Stanley am nifer o resymau, gan gynnwys:

- Dim cyswllt â'r gwasanaeth prawf i drafod risg.
- Dim trafodaeth strategaeth amlasiantaethol
- Ni chafodd perthynas y fam â'i phartner ei hasesu'n briodol o ran sut roeddent yn rheoli'r mesur dim cyswllt a phwy, os unrhyw un, oedd â'r hawl i oruchwylio'r cyswllt.
- Dim sôn am gam-drin domestig er bod ei phartner wedi'i gyflawni'n flaenorol.

- Dim ymweliad â chartref y teulu i archwilio ymhellach i ddealltwriaeth y fam o'r risgiau a'r cytundeb ysgrifenedig oedd ar waith, ac i gwrdd â Stanley.

Cafodd yr Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd cyntaf a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod amser ei israddio i lefel gwasanaethau ataliol. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd yr atgyfeiriad perthnasol ac ni sylwyd ar hyn pan gafodd atgyfeiriadau eu derbyn a'u prosesu'n hwyrach.

Oherwydd y pryderon a nodwyd, asesir y dylai'r achos wedi symud at gynnal ymholiadau[i] amddiffyn plant Adran 47 yn gynt.

Cyflwynwyd y pedwerydd atgyfeiriad, a'r olaf, ar 6 Mai 2021, a wnaeth symud at gynnal ymholiadau amddiffyn plant Adran 47, a ddaeth i ben 29 Mehefin 2021. Canlyniad yr ymholiadau oedd symud at gynnal cynhadledd achos amddiffyn plant, a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2021. Er y cafodd cyfarfod strategaeth ei gynnal, dim ond yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol oedd yn bresennol. Ni chafodd asiantaethau eraill fel y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaeth prawf eu gwahodd i'r cyfarfod.

Mae'r amserlenni a nodwyd yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru yn dweud y dylai ymholiadau amddiffyn plant Adran 47 cael eu cydgysylltu ymhen 10 diwrnod gwaith o'r cyfarfod strategaeth. Os mai canlyniad yr ymholiadau amddiffyn plant Adran 47 yw cynnal cynhadledd achos amddiffyn plant cychwynnol, rhaid cynnal y gynhadledd ymhen 15 o ddiwrnodau gwaith i'r penderfyniad hwnnw. Fel y nodwyd uchod fodd bynnag, ni chafodd yr amserlenni hyn eu dilyn. Golyga'r oedi hwn na chafodd y risg a wynebwyd gan y plant ei rheoli'n ddigonol drwy gynllun amddiffyn plant statudol.

Roedd y plant yn cael eu hasesu a'u hadolygu'n barhaus gan y gwasanaethau plant pan roddwyd eu henwau ar y gofrestr amddiffyn plant. Roedd y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn rhannu gwybodaeth am iechyd meddwl tad Stanley gyda'r gwasanaethau plant. Rhwng mis Mehefin 2021 a mis Hydref 2021 cafwyd pryderon ynghylch yr angen i asesu iechyd meddwl tad Stanley ar frys am nad oedd yn cymryd ei feddyginiaeth ac ymddangosai'n seicotig; credai fod y llywodraeth yn mynd i'w ladd ac yn ymyrryd â'i fwyd, roedd yn yfed a gyrru, yn cludo cyllell yn ei gar a chafodd ei drin fel claf mewnol am gyfnod byr.

Er gwaethaf y pryderon uchod, ni chafodd tad Stanley ei asesu'n drylwyr, na'i allu i amddiffyn a diogelu Stanley a gofalu amdano. Er bod tad Stanley yn bresennol yn y cyfarfodydd grŵp craidd a'r cyfarfodydd cynhadledd achos, nid yw ei lais i'w glywed yng ngwybodaeth y cyfnod amser.

Yn ystod y cyfnod pan oedd enwau'r plant ar y gofrestr amddiffyn plant, cyfeiriodd mam Stanley sawl gwaith at y ffaith ei fod yn cael trafferth i ymdopi â defnyddio'r toiled ac yn cael damweiniau'n aml, ond ni roddwyd unrhyw gymorth. Ar ôl rhyddhau Stanley o'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd ar 11 Awst 2021, nid oedd ganddo gynrychiolydd iechyd yn y cyfarfodydd cynhadledd achos amddiffyn plant na'r cyfarfodydd grŵp craidd a ddaeth wedyn.

**Arfer da**

Fel rhan o’r ymholiadau amddiffyn plant Adran 47, mae’r gweithiwr cymdeithasol yn ymweld ag ysgol Stanley nifer o weithiau ac ymddengys bod cyfathrebu ag Addysg wedi bod yn dda.

Cafwyd presenoldeb da gan yr asiantaethau gwahanol yn y cyfarfodydd cynhadledd achos a’r cyfarfodydd grŵp craidd.

Rhannwyd gwybodaeth yn dda gan yr adran iechyd meddwl a oedd yn rhoi diweddariadau cyson i’r gwasanaethau plant am y pryderon ynghylch iechyd meddwl tad Stanley.

**Thema 2 : Cyfleoedd a fethwyd i gyflwyno atgyfeiriadau diogelu**

Cafwyd cyfleoedd a fethwyd i gyflwyno atgyfeiriadau diogelu yn ystod y flwyddyn cyn marwolaeth Stanley.

**Cyfleoedd a fethwyd gan y Bwrdd Iechyd**

Ym mis Ionawr 2021 cysylltodd tad Stanley â’r Ymwelydd Iechyd am ei bryderon ynghylch iechyd a lles ei fab, a’i wedd yn benodol, a ddisgrifiai fel brwnt (“*grubby*”). Cafodd ei gynghori i godi ei bryderon gyda’r gwasanaethau plant ac i fod â llinell gyfathrebu â mam Stanley o ran glendid.
Yn dilyn y galwad ffôn gyda thad Stanley, aeth yr Ymwelydd Iechyd i gartref y teulu yn ddirybudd. Nodwyd nad oedd amodau’r cartref yn lân ond eu bod yn dderbyniol. Nododd yr ymwelydd iechyd hefyd fod Stanley yn edrych yn welw ac wedi blino, a chynghorodd i’w fam roi mwy o fwyd llawn haearn iddo, fel cig coch a llysiau gwyrdd. Os na chafwyd unrhyw welliant, dylai fynd â Stanley at y meddyg teulu.

Asesir y dylai’r ymwelydd iechyd fod wedi cymryd meddiannaeth o’r pryderon a chyflwyno dyletswydd i adrodd i’r gwasanaethau plant. Er y cyngor a roddwyd i dad Stanley, ni chymerwyd unrhyw gamau dilynol i gadarnhau ei fod wedi rhoi gwybod i’r gwasanaethau plant am ei bryderon.

**Cyfleoedd a fethwyd gan y Gwasanaeth Prawf**

Yn ystod mis Chwefror 2021, nododd aelod o’r gwasanaeth prawf fod y berthynas rhwng mam Stanley a’i phartner yn parhau, eu bod yn treulio cyfnodau sylweddol o amser gyda’i gilydd a bod y partner yn dod i gysylltiad â Stanley pan oedd y fam yn bresennol. Mae hefyd yn nodi ei fod yn defnyddio gwerth tua £50 o ganabis yn ddyddiol.

Yn y digwyddiad dysgu, dywedodd yr ymarferwyr nad oedd yn glir a oedd mam Stanley wedi’i hasesu fel person addas i oruchwylio’r cyswllt. Er i’w phartner ddweud wrtho ei bod hi’n addas, nid oedd yr ymarferydd prawf erioed wedi cadarnhau hynny gyda’r gwasanaethau plant. Gan ystyried lefel risg y partner, dylai hysbysiad dyletswydd i adrodd fod wedi cael ei gyflwyno yn ystod y cyfnod hwn.

**Arfer da**

Cafodd hysbysiad dyletswydd i adrodd ei gyflwyno pan ddatgelwyd y beichiogrwydd i'r ymarferydd prawf, ac roedd nodiadau'r achos prawf yn rhoi tystiolaeth bod yr ymarferydd prawf wedi cyflwyno atgyfeiriad arall pan ddaeth gwybodaeth newydd i'r amlwg, a hefyd bod ymholiadau dilynol am statws yr atgyfeiriad wedi'u cynnal.

**Thema 3 - Anwybyddu pryderon ynghylch Cam-drin Domestig a chyfleoedd a fethwyd i atgyfeirio'r achos i wasanaethau'r Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA).**

Fel y nodir drwy gydol yr adroddiad hwn, roedd y gweithwyr proffesiynol yn pryderu am y berthynas rhwng mam Stanley a'i phartner oherwydd ei droseddau rhyw a'i hanes o gam-drin domestig. Fodd bynnag, mae'n amlwg y cafodd y pryderon am gam-drin domestig eu diystyru ar adegau ac ymddengys i'r pryderon ganolbwyntio ar y risg o gam-drin rhywiol yn unig. Methwyd cyfleoedd i atgyfeirio'r achos i wasanaethau'r Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA). Ar ddechrau'r berthynas, cadarnhaodd y gweithwyr proffesiynol eu bod yn ymwybodol o'i droseddau rhyw ond nid ei hanes o gam-drin domestig.

Rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Hydref 2021, cynhelir tri chyfarfod Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn (MAPPA). Yn y cyfarfod cyntaf, nodwyd nad oedd datgeliad Cyfraith Clare wedi'i wneud ond bod gwybodaeth berthnasol am y troseddau wedi cael eu datgelu gan swyddog Rheoli Troseddwyr Rhywiol neu Dreisgar (MOSOVO). Nid yw lefel y datgeliad, nac i ba raddau yr oedd yn cynnwys hanes lawn y cam-drin domestig, wedi'i nodi'n glir.

Nid oes cyfeiriad at yr angen i atgyfeirio'r achos i wasanaethau'r Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig cyn mis Hydref 2021, er i'r gwasanaethau fod yn bresennol mewn cyfarfodydd Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn (MAPPA). Yr ymarferydd prawf sy'n cyflwyno'r atgyfeiriad; fodd bynnag, ni chafodd ei brosesu oherwydd camsyniad ar ran gwasanaeth y Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r adroddiad hwn wedi cyfeirio at yr asesiadau gwahanol a gynhaliwyd gan y gwasanaethau plant. Fodd bynnag, mae cynnwys yr asesiadau'n dangos yn glir bod y pryderon ynghylch cam-drin domestig wedi cael eu diystyru a heb gael eu hasesu'n briodol. Roedd yr asesiadau hyn yn gyfleoedd a fethwyd i gyflwyno atgyfeiriadau i'r Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig.

**Gwella Systemau ac Arferion**

*Er mwyn hyrwyddo'r dysgu o'r achos hwn, nodwyd y camau canlynol i Fwrdd Diogelu Gwent a'i aelod-asiantaethau gan yr adolygiad, ynghyd â'r canlyniadau gwella a rhagwelir*: -

**Argymhellion**

**Thema 1 – Ansawdd yr asesiadau diogelu**

Diweddariadau i arferion
Mae hybiau diogelu amlasiantaethol bellach yn weithredol a'u nod yw helpu i oedolion a phlant sy'n agored i niwed gyrraedd y gwasanaethau sydd arnynt eu hangen i'w cadw'n ddiogel. Yn yr hyb ceir nifer o asiantaethau gan gynnwys swyddogion yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr addysg proffesiynol, swyddogion prawf a staff o'r sector gwirfoddol – yn gweithio mewn partneriaeth i rannu gwybodaeth a mynd i'r afael â phryderon diogelu. Mae'r hybiau diogelu'n sicrhau bod cyfarfodydd diogelu perthnasol, gan gynnwys cyfarfodydd strategaeth, yn amlasiantaethol.

Argymhelliad 1

Bwrdd Diogelu Gwent i ddatblygu canllawiau parhad busnes i asiantaethau eu dilyn lle bydd digwyddiad neu sefyllfa'n codi sy'n effeithio ar y gwaith o gyflenwi gwasanaethau. Bydd canllawiau rhanbarthol yn sicrhau bod yr holl asiantaethau'n gweithio yn ôl set o safonau cytunedig sy'n sicrhau na effeithir ar y gwaith o ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion.

Argymhelliad 2

Bwrdd Diogelu Gwent i ddatblygu fframwaith Sicrhau Ansawdd er mwyn sicrhau y caiff y broses gywir ei dilyn wrth gau achosion ac er mwyn sicrhau y cydymffurfir â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Argymhelliad 3

Mae angen i awdurdodau lleol wella effeithlonrwydd a chyfleoedd hyfforddiant i ymarferwyr rheng-flaen er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o ymgysylltu'n ystyrlon â thadau, gyda'r nod o'u grymuso i ddeall eu hawliau. Mewn rhai achosion, efallai na fydd tadau'n ymwybodol o'u hawliau fel rhiant i'w plentyn/plant. Gall ymarferwyr sy'n gweithio gyda theuluoedd gynnig esboniadau clir a chryno o hawliau'r tad h.y. esbonio Cyfrifoldeb Rhiant a'r hyn mae'n ei olygu ym mywyd y plentyn.

Argymhelliad 4

Dylai'r rhai sy'n bresennol yn y Drafodaeth Strategaeth gydymffurfio â'r argymhellion a nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru.

**Thema 2 –** Cyfleoedd a fethwyd i gyflwyno atgyfeiriadau diogelu**.**

Diweddariadau i arferion

Mae'r Bwrdd Diogelu yn y broses o ddatblygu Canllawiau ar Drothwy Dyletswydd i Adrodd ar Blant.

Argymhelliad 5

Bwrdd Diogelu Gwent i ddosbarthu Canllawiau ar Drothwy Dyletswydd i Adrodd i asiantaethau a monitro'r broses o'u gweithredu ymhob sefydliad. Yr asiantaethau unigol fydd yn gyfrifol am rannu'r canllawiau gyda'u staff ac am gyflwyno diweddariadau allweddol i'r bwrdd diogelu.

**Thema 3 Anwybyddu pryderon ynghylch Cam-drin Domestig a chyfleoedd a fethwyd i atgyfeirio'r achos i wasanaethau'r Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA).**

Argymhelliad 6

Uned Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn (MAPPA) Gwent i gynnig hyfforddiant i wasanaethau Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) Gwent er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt pan fyddant yn mynychu cyfarfodydd Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn.

Argymhelliad 7

Uned Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn (MAPPA) Gwent i roi briffiau i gadeiryddion holl gyrff y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn o ran trafodaethau a phenderfyniadau datgelu, a chofnodi'n gywir datgeliadau a gytunwyd arnynt.

Argymhelliad 8

Llunio briff 7-munud ar wasanaethau'r Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) a'i rhannu â sefydliadau. Dylai'r briff gynnwys yr hyn gall y gwasanaeth ei gynnig a gwybodaeth am y broses atgyfeirio.

**Cyfeiriadau:**

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/enacted/welsh

| Datganiad gan yr Adolygydd(Adolygwyr) | | | |
|---|---|---|---|
| **ADOLYGYDD 1** | Sinead Lewis | **ADOLYGYDD 2** | Clare Brace |
| **Datganiad o annibyniaeth o’r achos**<br>*Datganiad Cymhwyster Sicrhau Ansawdd* | | **Datganiad o annibyniaeth o’r achos**<br>*Datganiad Cymhwyster Sicrhau Ansawdd* | |
| Rwyf yn datgan fy mod i, cyn imi gymryd rhan yn yr adolygiad dysgu hwn:<br>• Heb ymwneud yn uniongyrchol â’r plentyn na’r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol am yr achos<br>• Nid oes gen i reolaeth llinell uniongyrchol dros yr ymarferydd/ ymarferwyr dan sylw.<br>• Yn meddu ar y cymwysterau, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant priodol a gydnabyddir i gynnal yr adolygiad<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn ddadansoddiad a gwerthusiad manwl o’r materion fel y’u nodwyd yn y Cylch Gorchwyl. | | Rwyf yn datgan fy mod i, cyn imi gymryd rhan yn yr adolygiad dysgu hwn:<br>• Heb ymwneud yn uniongyrchol â’r plentyn na’r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol am yr achos<br>• Nid oes gen i reolaeth llinell uniongyrchol dros yr ymarferydd/ ymarferwyr dan sylw.<br>• Yn meddu ar y cymwysterau, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant priodol a gydnabyddir i gynnal yr adolygiad<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn ddadansoddiad a gwerthusiad manwl o’r materion fel y’u nodwyd yn y Cylch Gorchwyl | |
| **Adolygydd 1** *(Llofnod)* | | **Adolygydd 2** *(Llofnod)* | |
| **Enw** *(Printiwch)* | Sinead Lewis | | Clare Brace |
| **Dyddiad** | 27.03.2024 | **Dyddiad** | 27.03.2024 |

| | |
|---|---|
| *Cadeirydd y Panel Adolygu (Llofnod)* | |
| **Enw** *(Printiwch)* | Alison Ramshaw |
| **Dyddiad** | 27.03.2024 |

**Atodiad 1**: Cylch Gorchwyl

| **Y broses Adolygu Ymarfer Plant** |
|---|
| <u>Y broses Adolygu Ymarfer Plant</u><br><br>Ar 21 Chwefror 2022, hysbysodd Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru Lywodraeth Cymru ei fod yn comisiynu Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig mewn perthynas â phlentyn ifanc.<br><br>Adolygydd: Sinead Lewis, Uwch Swyddog Prawf<br><br>Adolygydd: Clare Brace, Nyrs Diogelu Arweiniol<br><br>Cadeirydd y Panel: Alison Ramshaw, Pennaeth Gwasanaethau<br><br>Roedd y gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y panel yn cynnwys:<br><br>• Uned Diogelu'r Cyhoedd Heddlu Gwent<br>• Y Gwasanaethau Plant<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>• Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru<br>• Addysg<br><br>Daeth y panel ynghyd yn aml i adolygu'r wybodaeth amlasiantaethol a rhoi dadansoddiad er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r adroddiad.<br><br><u>Digwyddiad Dysgu</u><br>Cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu ym mis Medi 2023. Roedd yr asiantaethau canlynol yn bresennol:<br><br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>• Heddlu Gwent<br>• Gwasanaeth Prawf Gwent<br>• Y Gwasanaethau Plant<br><br><u>Aelodau o'r teulu</u><br>Hysbyswyd aelodau perthnasol o'r teulu bod yr adolygiad yn cael ei gynnal a chynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Adolygwyr ar gais. |
| ☐ Teulu'n gwrthod cymryd rhan |

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

Dyddiad derbyn y wybodaeth ………………………..

Dyddiad anfon llythyr cydnabod at Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Plant Lleol …………………………

Dyddiad dosbarthu i'r arolygiaethau/ Arweinwyr Polisi perthnasol ………………………….

| Asiantaethau | Do | Naddo | Rheswm |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | |
| | ☐ | ☐ | |
| | ☐ | ☐ | |
| | ☐ | ☐ | |
| | ☐ | ☐ | |

[i] Diben yr ymholiad Adran 47 yw cadarnhau a yw plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol ac a oes angen ymyrryd er mwyn diogelu a hyrwyddo ei lesiant. Y gwasanaethau cymdeithasol sy'n bennaf cyfrifol am yr ymholiadau. Mae gan ymarferwyr eraill, megis yr heddlu, partneriaid ym maes iechyd, addysg a phartneriaid perthnasol eraill ddyletswydd i gydweithredu ac i helpu'r Gwasanaethau Cymdeithasol gynnal eu hymholiadau.

**Atodiad 1**

## Cylch Gorchwyl

## ADOLYGIAD YMARFER PLANT ESTYNEDIG MEWN PERTHYNAS Â SEWSCB 4/2022

### Tasgau craidd

- Penderfynu a yw'r penderfyniadau a wnaed a'r camau a gymerwyd yn yr achos yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaethau a enwir a'r Bwrdd.
- Edrych ar y gweithio rhwng asiantaethau a'r darpariaeth gwasanaeth i'r plentyn a'i deulu.
- Penderfynu ar y graddau roedd y penderfyniadau a'r gweithredoedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Gofyn am gyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi gwybod iddynt am agweddau allweddol ar unrhyw gynnydd.
- Rhoi ystyriaeth i unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfreithiol cyfochrog sy'n gysylltiedig â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu i ymarferwyr a phennu'r adnoddau sy'n eu hangen.

### Tasgau penodol y Panel Adolygu

- Pennu a chomisiynu adolygwr/adolygwyr i weithio gyda'r panel adolygu yn unol â'r canllawiau ar gyfer adolygiadau cryno ac adolygiadau estynedig.
- Cytuno ar yr cyfnod amser.
- Pennu asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, sefydlu llinell amser a chrynodeb cychwynnol o'r achos, a nodi unrhyw gamau a gymerwyd yn unionsyth.
- Creu llinell amser wedi'i chyfuno, dadansoddiad cychwynnol a damcaniaethau. (cwmpas 19.12.2020 - 19.12.2021)
- Ar y cyd â'r adolygydd/adolygwyr, cynllunio digwyddiad dysgu i ymarferwyr, i gynnwys pennu cyfweleion a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau i gael adborth.
- Ar y cyd â'r adolygydd/adolygwyr, cynllunio trefniadau ar gyfer cysylltu â'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.

- Derbyn ac ystyried yr adroddiad adolygu ymarfer plant drafft er mwyn sicrhau y cyflawnwyd y cylch gorchwyl ac yr aed i'r afael â'r damcaniaethau cychwynnol, a bod unrhyw ddysgu ychwanegol wedi'i nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.

- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad ac ar gynllun gweithredol amlinellol, a threfnu i'w cyflwyno i'r Bwrdd gael eu hystyried a chytuno arnynt.

- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad ddod i ben a chyn ei gyhoeddi.

**Tasgau'r Bwrdd Diogelu Plant**

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu i'w cynnwys yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.

- Y Panel Adolygu i gwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.

- Y Bwrdd yn anfon yr adroddiad at yr asiantaethau perthnasol i gael eu sylwadau terfynol cyn ei gymeradwyo a'i anfon at Lywodraeth Cymru.

- Cadarnhau'r trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol gan yr Is-grŵp Adolygu, gan gynnwys sut caiff y gwelliannau a ragwelir i'r gwasanaethau eu hadnabod, eu monitro a'u hadolygu.

- Cynllunio i gyhoeddi'r adroddiad ar wefan y Bwrdd.

- Cytuno ar sut i ddosbarthu'r adroddiad i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.

- Cadeirydd y Bwrdd fydd yn gyfrifol am yr holl sylwadau a wneir yn gyhoeddus a'r ymatebion i'r cyfryngau mewn perthynas â'r adolygiad hyd ddaw'r broses i ben.